

Ffordd Pererindod Penrhys Tonyrefail i Ddinas



**Cychwyn: Concorde Drive, Tonyrefail (cyfeiriad grid ST 019788,
côd post CF35 8NE)**

Diwedd: Gorsaf Dinas Rhondda (cyfeiriad grid ST 006919, côd post CF40 2PJ)

Pellter: 3 milltir / 5cm

1. Dringwch fencyn porfa ar ochr ogleddol Concorde Drive 'chydig cyn rhes o dai (gyda'r arwydd 4-6 Concorde Drive) ac ewch trwy glwyd fetel werdd yn y ffens.
2. Ymunwch â'r llwybr tarmac ac ewch i'r dde. Dilynwch hwn wrth iddo wyro i'r chwith am ryw 350 llath (320m) tan i chi gyrraedd llwybr sy'n mynd i'r chwith. Ewch yn eich blaen ar hwn, i gyfeiriad y gogledd orllewin, tan i chi gwrdd â llwybr arall sy'n mynd i'r dde. Fe welwch dai gwyn yn Trebanog yn y pellter. Mae'r tir 'rydych yn cerdded arno yn arfer bod, yn yr Oesoedd Canol, yn rhan o Faenor Morton oedd yn eiddo i Urdd Marchogion Sant Ioan, Jeriwsalem.
3. Dilynwch y llwybr hwn, gan gymryd yr un ar y dde ble mae'r llwybr yn fforchio. Dilynwch hwn tan iddo ddechrau dringo i'r dde. Yn y fan yma ewch i'r chwith ar hyd llwybr culach i gyrraedd diwedd cul-de-sac a thai Pen y Dre. Yma, bron gyferbyn, fe welwch chi Ganolfan Gymunedol Waun Wen. Mae paspord Trebanog ar gael yng Nghanolfan Gymunedol Waun Wen sy'n enwog am ei seddi cwmwl tu fas, lle y gallwch sefyll a gwerthfawrogi golygfa'r cwm islaw.
4. Os nad ydych am fynd i fewn i'r ganolfan, trowch i'r chwith, heibio'r siop gwerthu popeth a dilynwch Heol Rhiwgarn i lawr i'r A4233 a'r Trebanog Arms (os ewch i i'r Ganolfan, trowch i'r dde i gyrraedd yr A4233).
5. Croeswch y briffordd ac ewch yn eich blaen ar hyd Brooks Terrace. Ar ôl rhyw 200 llath (180m), trowch i'r dde ger gorsaf bysiau, ac i fyny Trem y Glyn.
6. Yna cymerwch y troad cyntaf ar y chwith ac ewch yn syth lan i'r Comin. Cadwch at y prif lwybr gan anwybyddu'r un sy'n fforchio lawr i'r dde.
7. Croeswch y ffens trwy fynd dros y gamfa, sy ar y chwith i glwyd ac ewch i'r dde lawr y rhiw am rhyw 85 llath (80m). Ewch dros y gamfa sy'n union o'ch blaen.
8. O'r fan yma gallwch weld yn y pellter tua'r gogledd, bostyn ar dop y bryn. Anelwch at hwnnw. Ewch yn eich blaen i lawr, croeswch gwrs dwr a dringwch y llethr i gyfeiriad y postyn.
9. Pan gyrhaeddwch y postyn, fe welwch Dinas a mynwent fawr ar y llethr o'ch blaen. Gwyrwch i'r chwith ac ewch yn eich blaen. Mae ffens o'ch blaen. Ewch lawr tuag at y ffens gan aros i'r dde ohoni (er bydd raid i chi i fynd ymhellach i'r dde am dipyn bach i osgoi'r rhedyn). 'Rydych ar ochr cwm yr afonig Nant Graig Ddu. Y garreg yn yr ardal hon yw Tywodfaen Pennant, carreg wyrddlas lwyd sy'n aml yn edrych yn ddu yn ei lleoliad naturiol.

10. Ewch dros y gamfa i ymuno a'r lôn sy wedi ei suddo, a dilynwch hon, gan fynd trwy glwyd ar y ffordd i lawr. Byddwch yn mynd heibio i adfail a chychod gwenyn ar y chwith.
11. Ar waelod y rhiw, dilynwch y llwybr sy'n troi i'r chwith, gan groesi nant tan i chi gyrraedd iet, gyda'r prif lwybr yn dod o'r chwith. Ewch yn syth yn eich blaen yma. Mae'r llwybr yn mynd heibio tyddyn a hen adeiladau fferm ac yn cyrraedd Heol Graig Ddu.
12. Ar ôl rhyw chwarter milltir (400m) mae'r ffordd yn fforchio. Fe allwch gymryd y ffordd i'r dde neu ar hyd lôn fer trwy goed i gyrraedd A4058 Heol Dinas, neu gallwch ddal i fynd yn syth ymlaen i gyrraedd yr heol.
13. Trowch i'r chwith, croeswch y brif ffordd a mynd lawr y grisiau ar ôl bloc o fflatiau. Ewch i'r chwith gan ddilyn y llwybr sydd â'r afon ar y dde.
14. Pan ddowch chi at y ffordd, trowch i'r dde a chroesi pont dros yr afon i Drealaw, gan gymryd gofal o'r traffig. Mae gorsaf Dinas ar y dde yn union ar ôl y bont. Mae na sawl safleoedd bws ger y bont ar yr A405.

Gyda diolch i Janet Sully a phawb sydd wedi cyfrannu at fapio'r daith.

28/02/2020